# Archwiliad Meddygol Amddiffyn Plant

## Gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi'i dylunio i roi gwybod i rieni/ofalwyr am yr hyn y mae archwiliad meddygol amddiffyn plant yn ei olygu a pham fod ei angen.

Nid yw bob amser yn bosibl gwybod beth sydd wedi achosi marc ar blentyn. Felly, mae'n bwysig cynnal asesiadau, archwiliadau ac ymchwiliadau priodol. Mae hyn i gyd yn cael ei reoli gan Ddeddf Plant 1989, ac mae Gweithwyr Cymdeithasol a'r Heddlu yn ymwneud â phenderfynu a oes angen archwiliad meddygol amddiffyn plant, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu.

## Pam fod angen archwiliad meddygol amddiffyn plant ar fy mhlentyn i?

Mae angen archwiliad meddygol amddiffyn plant pan fo pryderon efallai bod gan eich plentyn chi anaf sydd ddim yn gallu cael ei egluro neu nad yw'r esboniad yn cyd-fynd â'r anaf neu, efallai, y bydd pryderon am iechyd a lles corfforol cyffredinol eich plentyn chi. Bydd y Meddyg yn Bediatregydd profiadol sydd â hyfforddiant arbenigol.

## Beth sy'n digwydd yn y Ganolfan Feddygol Amddiffyn Plant?

Bydd rhaid rhoi eich caniatâd ar gyfer yr archwiliad meddygol amddiffyn plant ac unrhyw brofion yn y dyfodol cyn i'r broses ddechrau. Bydd y meddyg yn edrych ar hanes meddygol llawn eich plentyn chi ac yn archwilio'ch plentyn chi, o'r pen i'r traed. Os oes unrhyw anafiadau, bydd y rhain yn cael eu dogfennu ac, efallai, bydd ffotograffau'n cael eu tynnu. Bydd y profion sydd eu hangen yn dibynnu ar yr anaf/pryder ac oedran eich plentyn chi. Weithiau, mae hyn yn gallu cael ei wneud fel 'claf allanol' ond, weithiau, bydd angen i'ch plentyn chi gael ei dderbyn i ward i blant ar gyfer profion ac archwiliadau pellach. Os oes plant eraill yn y teulu, efallai y bydd angen gwneud archwiliad gyda nhw hefyd

## Pa mor hir fydd yr archwiliad meddygol amddiffyn plant yn ei gymryd?

Os mae'r archwiliad meddygol yn cael ei gwblhau ar sail claf allanol ac nad oes angen i'ch plentyn chi gael ei dderbyn i'r ysbyty, mae'n debygol o gymryd 2-3 awr. Os oes angen i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysbyty ar gyfer rhagor o brofion, yna mae'n debygol o gymryd ychydig ddyddiau.

## Profion sy'n gallu bod yn ofynnol

### Arholiad cyffredinol

Bydd eich plentyn chi'n cael archwiliad cyffredinol llawn (o'i gorun i'w sawdl). Os oes gan eich plentyn chi unrhyw anafiadau, marciau neu gleisiau, bydd y rhain yn cael eu nodi a'u mesur a bydd lluniau'n cael eu tynnu yng nghofnodion y plentyn. Mae ffotograffau'n gallu cael eu tynnu hefyd.

### Profion gwaed

Efallai y bydd angen i blant o bob oed gael profion gwaed. Mae hyn i chwilio am gyflyrau sy'n gallu gwneud eich plentyn yn fwy tueddol o gael cleisiau ac o waedu ac i edrych ar iechyd esgyrn ac iechyd cyffredinol.

### Prawf Llygaid

Mae hyn er mwyn archwilio cefn y llygad a bydd hyn yn cael ei gwblhau gan arbenigwr llygaid

### Arolwg Ysgerbydol

Mae'n bosibl y bydd angen i blant dan 2 oed gael hyn a bydd angen mynd i'r ysbyty. Mae'n cynnwys cyfres o belydrau-x o wahanol esgyrn i chwilio am doriadau/clefydau. Bydd angen gwneud yr archwiliad eto 11-14 diwrnod ar ôl yr un cyntaf. Mae'r prawf hwn yn annhebygol ar gyfer plant dros 2 oed.

### Sgan tomograffeg gyfrifiadurol o'r pen

Efallai y bydd angen i blant dan 2 oed gael hwn. Bydd hyn hefyd yn gofyn i'ch plentyn chi gael ei dderbyn i ysbyty gan fod angen i'ch plentyn gael ei dawelyddu weithiau. Bydd hwn yn cael ei gwblhau os oes pryder am anaf i'r pen.

Os yw eich derbyniad chi dros benwythnos, mae'n debygol y bydd cyfnodau o aros ac, efallai, na fydd y profion gofynnol yn digwydd tan y diwrnod busnes nesaf.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr archwiliad meddygol amddiffyn plant?

Mae'n ofynnol i'r Meddyg ysgrifennu adroddiad i'w rannu gyda'r Gwasanaethau Plant a'r Heddlu. Bydd copi o'r adroddiad hefyd yn cael ei anfon at Feddyg Teulu eich plentyn chi. Ni fyddwch chi'n cael copi o'r adroddiad, fodd bynnag, bydd canlyniadau unrhyw brofion/gweithdrefnau'n cael eu rhannu gyda chi.

## Beth sy'n digwydd os caiff fy mhlentyn ei dderbyn i'r ysbyty?

Byddwch chi'n cael eich annog i aros yn yr ysbyty gyda'ch plentyn chi, ond efallai y bydd adegau pan na fydd hyn yn bosibl. Bydd hyn yn cael ei esbonio'n llawn i chi. Fel mae wedi'i esbonio uchod, os mae eich plentyn chi'n cael ei dderbyn i'r ysbyty, mae'n gallu cymryd nifer o ddyddiau. Cyn rhyddhau eich plentyn chi, bydd cynllun yn cael ei wneud, gan gynnwys unrhyw apwyntiadau dilynol angenrheidiol neu ymchwiliadau pellach. Bydd Gwasanaethau i Blant yn rhan o'r cynllun hwn ac, weithiau, bydd gan yr Heddlu fewnbwn hefyd.

## Cyfathrebu

Mae'r Meddyg a/neu'r Staff Nyrsio ar gael i ateb eich cwestiynau chi. Os nad ydych chi'n hapus ag unrhyw agwedd o ofal eich plentyn chi yn ystod yr archwiliad meddygol amddiffyn plant ac, o bosibl, yn yr ysbyty, rhowch wybod i'r Meddyg neu'r Nyrs.

Rydyn ni'n deall yn llwyr ei bod yn gallu peri gofid pan mae pryderon yn cael eu codi am ddiogelwch a lles eich plentyn chi, ac rydyn ni'n gwybod y mae archwiliadau amddiffyn plant yn gallu gwneud pobl yn bryderus. Mae'n bwysig eich bod chi'n deall beth sy'n digwydd, bod rhywun yn gwrando ar eich barn chi a barn eich plentyn chi ac yn cael unrhyw gymorth neu gefnogaeth sydd ei angen arnoch

## Gwybodaeth ddefnyddiol

### Gwasanaethau i Blant

- Blaenau Gwent 01495 315700
- Caerffili 0808 100 1727
- Sir Fynwy 01291 635669
- Casnewydd 01633 656656
- Torfaen 01495 762200

### Ysbyty Athrofaol Y Faenor – Wardiau Plant

- 01633 493939
- 01633 493940
- 01633 493941

### NSPCC

Keeping children safe | NSPCC
0808 8005000

### Child Line

Childline | Childline
0800 1111

### NYAS

NYAS | National Youth Advocacy Service
0808 0801001

